Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Chwefror 2018

Annwyl Nick,

Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad wedi bod yn cynnal ymchwiliad sylweddol i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Ar 18 Ionawr, cawsom sesiwn dystiolaeth lafar gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Yn ystod y sesiwn hon, ac yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ar y cyd, cododd nifer o faterion mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Heddiw, cynhaliwyd ein sesiwn dystiolaeth ddiwethaf gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Unwaith eto, cododd materion yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.

Yn sgil eich ymchwiliad cyfredol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, dyma dynnu'ch sylw at y dystiolaeth hon, gan ei bod yn berthnasol i'ch gwaith. Rydym yn gobeithio cyflwyno adroddiad erbyn y Pasg a byddaf yn sicrhau y cewch gopi o'r adroddiad hwnnw.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd